Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-0207-20

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Ionar 2020

Annwyl Lynne,

Rwy'n cyfeirio at eich cais i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'r camau gweithredu a godwyd yn ystod sesiwn Cyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg ar 8 Ionawr 2020. Gweler isod fy ymateb mewn perthynas â'r materion hynny sy'n rhan o fy nghylch gwaith fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau Llywodraeth Cymru o'i gwaith ymchwiliol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried Bondiau Effaith Gymdeithasol fel model buddsoddi sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn lleihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n mynd i mewn i wasanaethau gofal, ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau

Byddwn yn ceisio penodi sefydliad addas i ddatblygu'r gwaith hwn. Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth, hyd yma, rydym wedi bod yn gweithio gyda chwmni Social Finance ond, yn dibynnu ar y trefniadau, efallai y bydd angen i ni geisio cyngor ar gaffael cyn cadarnhau unrhyw fanylion cytundebol. Byddai angen i ni nodi partneriaid llywodraeth leol sy'n addas ac yn barod i dreialu'r cynllun.

Yn olaf, byddai angen cynnal proses ddethol ar gyfer darparwyr cyllid a sefydliadau trydydd sector a fyddai'n darparu'r gwasanaeth, a fyddai'n cael ei ddarparu i'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Dylai gwaith y partneriaid trydydd sector hyn gynhyrchu arbedion ar gyfer awdurdodau lleol a all ad-dalu'r darparwyr cyllid wedyn. Ar ôl i'r cyllid gael ei ad-dalu, bydd yr awdurdodau yn gallu defnyddio'r arbedion i gyllido gwasanaethau eraill. Bydd y model yng Nghymru yn wahanol am fod Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod rhywfaint o risg, a all golygu nad yw'r holl fuddiannau posibl yn cael eu cynhyrchu. Yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon gweithredu fel gwarantwr y cynllun – mae hyn yn golygu na fydd yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn gyfrifol am y risg.

Bydd angen i'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan nodi'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal y maent yn eu gweithredu, a gweithio gyda phartïon eraill i ddatblygu mesurau ystyriol fel ein bod yn gwybod sut beth yw llwyddiant, neu fethiant. Bydd angen i ni sicrhau bod awdurdodau lleol yn deall yn llawn pa ffactorau sy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgogi'r pwysau a'r canlyniadau ariannol rydym yn eu gweld. Bydd hefyd angen i ni sicrhau bod y camau gweithredu a gynigir yn debygol o effeithio ar y sbardunau hyn – mae angen i ni dderbyn bod hon yn broblem gymhleth, ac y darperir ar gyfer y cymhlethdod hwn a bod dull gweithredu hyblyg wedi'i fabwysiadu.

Cadarnhad ynghylch ble yn union mae manylion am yr ystyriaeth glir o effaith penderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant yn Asesiad Effaith Integredig Strategol eleni y cyfeirir ato yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y sesiwn hon.

Fel rhan o broses y gyllideb, mae gennym gyfrifoldeb i ystyried ein penderfyniadau o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith. Rydym yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu integredig sy'n ein galluogi i ddeall effaith penderfyniadau ar grwpiau gwahanol o bobl a meysydd megis yr amgylchedd, yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod ystyried hawliau Plant yn parhau i fod yn rhan annatod o broses ein cyllideb.

Gellir dod o hyd i'r ystyriaethau o'r effeithiau ar blant yn y paragraffau canlynol o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol; 32, 33, 48, 53, 59-61, 65, 68-93, 96-97, 104-105, 109-111, 115, 121-127 a 158.

Rhestr o brosiectau sy'n cael cyllid o dan y cynnig gofal plant ar gyfer Cyfnod Sylfaen a gydleolir a darpariaeth Cynnig Gofal Plant.

Nod Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant yw cefnogi'r sector gofal plant ledled Cymru, gan gynyddu capasiti a sicrhau bod digon o leoedd i alluogi lleoliadau i ddarparu'r Cynnig Gofal plant. O dan y cynllun, rydym wedi rhoi cyllid i bob awdurdod lleol i gyflwyno cynllun grantiau bach yn eu hardal, ynghyd â chyllid tuag at dros 150 o gynlluniau mwy o faint. Er mai mater i awdurdodau lleol unigol yw penderfyniadau ar ddyraniadau o dan y cynllun grantiau bach, cafodd y cynlluniau mwy eu hasesu ar lefel genedlaethol.

Mae gan Gynllun Grant Cyfalaf Bach y Cynnig Gofal Plant derfyn cyllid o rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn ariannol ar gyfer darparwyr gofal plant, yn seiliedig ar nifer y plant a gofrestrwyd. Gellir cynnig cyllid ar gyfer amrywiaeth o waith cyfalaf y gall fod angen ei wneud, megis:

- Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, newid carpedi ac ati;
- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, megis newid yr arwyneb chwarae awyr agored neu ddarparu canopi;
- Newid / trwsio gosodiadau a ffitiadau megis toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri a drysau;
- Newid cyfarpar / dodrefn / teganau â thraul arnynt a all beri risg o ran iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo awyr agored sydd wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu wedi treulio'n wael, a allai achosi fflawiau; neu fwrdd newid sy'n hen ac yn aflêr, na ellir ei lanhau'n hylan mwyach;
- Cyfarpar TG, ar yr amod y gellir dangos yn glir bod ei angen er mwyn darparu lleoliadau Cynnig Gofal Plant, gallai hyn gynnwys gliniaduron ac argraffwyr;
- Addasiadau i'r lleoliad er mwyn gwella mynediad;
- Darparu cyfarpar/dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i ddiwallu anghenion plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Prynu cyfarpar a fydd yn galluogi'r lleoliad i ddarparu ar gyfer plant rhwng 3 a 4 oed;
- Tuag at brynu bws mini a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gludo plant rhwng elfennau gofal plant ac addysg y Cynnig. Nid yw costau prydlesu na chostau cynnal megis costau yswiriant, petrol a gwasanaethu yn gymwys ar gyfer cyllid.

Mae'r cynlluniau mwy yn amrywio o ran maint a chymhlethdod. Mae rhai yn ymwneud ag adnewyddu lleoliadau sy'n bodoli eisoes i'w galluogi i ehangu a darparu gwasanaethau i fwy o blant. Mae rhai yn ymwneud â darparu gofal plant newydd a phwrpasol ar safleoedd ysgolion i alluogi cydleoli dwy elfen y Cynnig. Ceir rhestr lawn o'r grantiau cyfalaf a ddyfernir gan ardal yr Awdurdod Lleol yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Copi o'r llythyr a anfonwyd i Chwarae Cymru yn amlinellu'r cylch gwaith sy'n gysylltiedig â'i chyllid dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac awgrym o'r hyn y disgwylir ei gyflawni o'r cyllid y dyrennir iddi yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21

Rydych hefyd wedi gofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol am y cyllid o £360,000 a ddyrennir i Chwarae Cymru o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21.

Fel y wlad gyntaf yn y byd i gorffori'r hawl i chwarae mewn deddfwriaeth, ystyrir bod Cymru yn arweinydd byd-eang yn y maes hwn. Mae'r cyllid a ddarperir i Chwarae Cymru yn ei galluogi i gefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau chwarae i gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae gwell i blant. Mae hefyd yn ein galluogi i rannu ein profiadau a dysgu o'r rheini o wledydd eraill sydd wedi cael yr un statws rhyngwladol â Chwarae Cymru.

Yn hyn o beth, mae'r ffordd rydym yn ariannu Chwarae Cymru yn debyg i'r dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys Consortia Cwlwm, sy'n darparu cyngor a chymorth arbenigol ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â gofal plant, a Plant yng Nghymru. Mae cyfranogiad partneriaid arbenigol yn rhan allweddol o ddatblygu polisïau a rhaglenni integredig ar y cyd.

Mae'r cyllid a ddarperir i Chwarae Cymru yn ei galluogi i ddarparu yn erbyn pedwar amcan craidd sy'n hollbwysig i'r gwaith o ddarparu profiadau chwarae o ansawdd uchel:

- gweithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a materion sy'n gysylltiedig â chwarae plant yng Nghymru.
- hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru drwy ddarparu gwybodaeth amserol a chyfredol i'w rhanddeiliaid.
- darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol mewn perthynas â phob mater sy'n ymwneud â chwarae plant ac sy'n effeithio arno.
- cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

Caiff y llythyr cynnig grant ar gyfer 2020-21 ei anfon ar ôl cytuno ar y gyllideb derfynol. Gellir dod o hyd i'r llythyr cynnig grant ar gyfer 2019-20 wedi ei llofnodi yn y ddolen isod. Nid ydym yn disgwyl unrhyw wahaniaethau mawr i'r llythyr cynnig grant ar gyfer 2020-21.

https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A25749272/document/versions/published

Ceir copi diweddar o Gynllun Gweithredol Chwarae Cymru ar gyfer 2018-2020 yn:

https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A28695206/document/versions/published

Manylion pellach am y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £2.3 miliwn yn ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21 i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu, a manylion pellach am ei hymateb i'r pryderon a godwyd gan Adoption UK yng Nghymru ynglŷn ag effaith ei chais aflwyddiannus am gyllid

Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer 2020-21 ar wasanaethau cymorth.

- Mae'r buddsoddiad o £2.3 miliwn yn cael ei ddefnyddio i drawsnewid y 'cynnig' cymorth mabwysiadu yng Nghymru ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd greadigol i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer adnoddau eraill er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf posibl. Bwriedir i'r 'Cynnig Craidd' hwn wneud y canlynol:
    - paratoi teuluoedd mabwysiadol o'r cychwyn a'u cefnogi yn ystod y diwrnodau cynnar er mwyn annog teuluoedd iach a hyderus;
    - darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth effeithiol pan fydd eu hangen ar y teuluoedd, a hynny'n amserol, er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi yn llai tebygol o ddatblygu'n faterion mwy difrifol;
    - darparu cymorth parhaus neu sicrhau ei bod yn hawdd defnyddio'r gwasanaethau eto, lle y bo angen.
- Mae gwasanaethau Newydd ac Arloesol yn cael eu datblygu drwy'r cyllid hwn, ac mae llawer ohonynt yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru, er enghraifft Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu (TESSA), Mabwysiadu Gyda'n Gilydd a Connected (gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiedir).
- Gwasanaeth ledled y DU a ariennir gan y Loteri yw TESSA (Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu) sy'n cael ei gyflwyno yng Nghymru, gan ddefnyddio cyllid cyfatebol o'r buddsoddiad hwn i ddarparu cyrhaeddiad ehangach yng Nghymru. Yn seiliedig ar ddarpariaeth drwy riant-bartneriaid sy'n cael eu talu (mabwysiadwyr profiadol a chymwys), mae'n cynnwys asesiad seicoleg arbenigol a chwrs 6 wythnos (yn seiliedig ar wasanaeth llwyddiannus a ddarperir gan un Bwrdd Iechyd yng Nghymru), yn ogystal â mynediad i wasanaethau cymorth eraill a argymhellir. Mae'r gost yn parhau i fod yn isel, mae'r nifer sy'n cofrestru'n gynnar yn dda ac mae'n cael ei werthuso'n academaidd. Pan fydd yn gwbl weithredol, bydd yn darparu gwasanaethau i tua 200 o deuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol. Dechreuodd y gwasanaeth dderbyn atgyfeiriadau ym mis Tachwedd ac mae 18 o deuluoedd eisoes yn manteisio arno.
- Gwasanaeth 'Connected' yw'r unig adnodd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiedir yng Nghymru (Talk Adoption gynt).Mae'r buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod hwn ar gael ym mhob rhan o Gymru a bod gwasanaeth cyngor a gwybodaeth yn ategu'r buddsoddiad. Caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu i blant a phobl ifanc a fabwysiedir yn yr un ffordd â'r gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu. Mae cynllun llysgenhadon sy'n oedolion ifanc a fabwysiedir yn darparu systemau ar gyfer ymgynghori, ymgysylltu a hyrwyddo mabwysiadu. Mae model cyllido cyfatebol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r cyrhaeddiad ehangaf posibl. Cynigwyd trosglwyddo 100 o blant a phobl ifanc i'r gwasanaeth newydd. Mae 70 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ac yn manteisio ar y gwasanaeth wrth iddo dyfu. Penodwyd swyddog datblygu cenedlaethol, yn ogystal â 4 allan o 5 swyddog rhanbarthol. Mae'r gwaith cwmpasu ar gyfer cynnig cyngor a gwybodaeth cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiedir wedi dechrau ac mae'r cynllun llysgenhadon sy'n oedolion ifanc a fabwysiadwyd yn mynd rhagddo, gyda 3 wedi'u recriwtio hyd yma.
- Mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i newid a gwella ymarfer ledled Cymru. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) wedi comisiynu AFA Cymru (y Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu) i weithio gyda'r sector i ddatblygu dulliau arfer gorau newydd mewn perthynas â'r canlynol:
    - lleoli plant a darparu cymorth cynnar (gan gynnwys Mabwysiadu Gyda'n Gilydd);
    - cyswllt sydd wedi'i hwyluso'n effeithiol gan wasanaethau / asiantaethau rhanbarthol;
    - asesiad cymorth mabwysiadu, cynllunio ac adolygu ar gyfer pob plentyn;

    - gweithio gyda rhieni biolegol gan gynnwys cysylltiadau â phrosiectau Reflect.
- ochr yn ochr â hyn, mae gwasanaethau yn treialu'r dulliau gweithredu gwahanol hyn er mwyn llywio'r canllawiau newydd sydd eisoes yn cael effaith ar blant a theuluoedd
    - Mae tua 25 o deuluoedd yn cael eu cefnogi mewn rhanbarthau sydd wedi datblygu'r dull newydd o leoli a darparu cymorth cynnar, ac mae 7 plentyn wedi'u lleoli drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd hyd yma
    - Gwnaeth 80+ o bobl fynychu'r digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd â Voices from Care, Prifysgol Caerdydd a Chanolfan Cyfreithiol Plant ym mis Mehefin 2019. O ran cynllun Connect a chysylltu drwy'r post, mae cynlluniau ar gyfer tua 2,300 o blant yn cael eu hadolygu / mae'r gwasanaeth yn cael ei wella
    - 50 o deuluoedd biolegol yn cael eu cefnogi gan yr adnoddau newydd hyd yma.
- Mae'r buddsoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i ymgorffori'r dull newydd o weithredu o ran Gwaith Taith Bywyd. Mae 4 allan o 5 rhanbarth wedi penodi cydlynwyr Gwaith Taith Bywyd newydd, gyda 154 o blant yn cael deunyddiau taith bywyd pan gânt eu paru. Mae 147 o blant wedi cael deunyddiau taith bywyd cyflawn yn ystod eu hail adolygiad mabwysiadu hyd yma eleni.
- Mae cyfran o'r buddsoddiad hefyd yn cael ei defnyddio mewn dau ranbarth i gefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o fabwysiadu, hyfforddiant a datblygu staff ym maes gofal cymdeithasol ac asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod gwell amrywiaeth o ymyriadau therapiwtig ar gael i gefnogi plant a fabwysiedir a theuluoedd.
- Mae cyfran o'r buddsoddiad hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi blaenoriaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sef recriwtio mwy o fabwysiadwyr.
- Wrth symud ymlaen, ein prif fwriad yw parhau i ddefnyddio'r adnoddau fel yr amlinellir uchod. Mae llawer ohono wedi cael ei fuddsoddi er mwyn darparu mwy o wasanaethau a 'u darparu'n fwy cyson ledled Cymru. Mewn perthynas â Chymorth Mabwysiadu yn enwedig, mae hyn yn rhan o gynllun strategol cyffredinol i weithredu Fframwaith Cymorth Mabwysiadu y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, a ddaw yn 'Gynnig Craidd'. Fodd bynnag, yn anochel, bydd blaenoriaethau cysylltiedig neu flaenoriaethau newydd yn dod i'r amlwg a byddwn yn ceisio bod yn greadigol ac yn hyblyg i ddefnyddio'r adnoddau i fodloni'r rhain wrth i ni symud ymlaen.

Gwnaeth swyddogion gyfarfod ag Adoption UK ar 13 Ionawr i drafod y ffaith nad oeddent yn llwyddiannus yn eu cais ar gyfer cyllid Grant Trydydd Sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy o 2020 ymlaen, a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Roedd hwn yn gyfarfod cadarnhaol a gofynnodd swyddogion am achos busnes manwl gan Adoption UK Cymru fel y cam nesaf er mwyn pennu'r gwasanaethau y gofynnir am gyllid ar eu cyfer. Yn dilyn hynny, cynhelir trafodaeth fanwl o'r achos busnes rhwng Adoption UK a swyddogion cyn bo hir. Yna, caiff y cynigion eu cyflwyno'n gyflym i'r gweinidogion eu hystyried ymhellach.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services